

Cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24: Tueddiadau mewn data swyddogol

Crynodeb gweithredol

Stephanie
Kewley a Kairika
Karnsa

Mawrth 2025;
ailgyhoeddedig
gyda data
ychwanegol,
Mehefin 2025



Ynglŷn â'r awduron

Mae Stephanie Kewley yn uwch swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh). Ar hyn o bryd mae hi'n cael ei secondio i Ganolfan CPRh o Brifysgol John Moores Lerpwl, lle mae'n Athro Cyfiawnder Fforensig a Throseddol yn y Gyfadran Iechyd.

Mae Kairika Karsna yn uwch swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan CPRh. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn

www.csacentre.org.uk

Crynodeb gweithredol

Mae deall graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yn allweddol i wella ymatebion iddo. Mae'r adroddiad hwn yn parhau â chyfres cyhoeddiadau'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (CPRh) sy'n rhoi'r dystiolaeth a'r dadansoddiad diweddaraf o ddata swyddogol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr i weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'n canolbwyntio ar yr achosion a gofnodwyd o gam-drin plant yn rhywiol mae gweithwyr proffesiynol wedi'u canfod ac wedi ymateb iddynt yn 2023/24, gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r data a ryddhawyd gan asiantaethau amddiffyn plant, cyfiawnder troseddol ac iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond i leiafrif bach o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd yn ein cymdeithas mae data asiantaeth yn berthnasol. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf un o bob 10 plentyn yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn 16 oed. Mae lefel y cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd mewn data asiantaethau swyddogol ac a grynhoir yn yr adroddiad hwn yn is o lawer na'r amcangyfrifon hyn o hyd a lled achosion. (Am dystiolaeth arolwg ddiweddaraf ar nifer yr achosion, gweler ein hadroddiad 2021 *Graddfa a Natur Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygu'r Dystiolaeth* yn www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/scale-nature-of-abuse/the-scale-and-nature-of-child-sexual-abuse/.)

Serch hynny, mae data asiantaethau yn adnodd gwerthfawr, yn bennaf oherwydd ei fod yn cael ei gasglu yn unol â diffiniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol: mae hyn yn ei gwneud yn bosibl monitro sut mae'r broses o ganfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol wedi newid dros amser, a sut mae'n wahanol rhwng awdurdodau lleol, heddluoedd a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. Mae'r data hwn hefyd ar gael ar lefel leol ar Hwb Deall Data'r Ganolfan CPRh (www.csacentre.org.uk/data-insights-hub), lle gellir gweld data gan awdurdodau lleol a heddluoedd unigol dros amser a'i gymharu ag ardaloedd tebyg.

Amddiffyn plant

Yn 2023/24, bu gostyngiad yn y lefel gyffredinol o ganfod achosion o gam-drin plant yn rhywiol gan wasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr. Cofnodwyd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn 44,830 o asesiadau o anghenion plant – y nifer isaf mewn naw mlynedd, ac 8% yn llai nag yn 2022/23.

Mae hyn yn awgrymu mai rhywbeth dros dro oedd y cynnydd yn y lefel o nodi pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn asesiadau o anghenion yn ystod 2021/22 a 2022/23, fel y nodwyd mewn rhifynnau blaenorol o'r adroddiad hwn; efallai ei fod yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth uwch a roddwyd i ddatgelu niwed posibl yn y cartref yn dilyn cyfyngiadau symud COVID-19.

Nid oedd llawer o ostyngiad yn ystod y flwyddyn o ran nifer cyffredinol yr asesiadau o anghenion lle cofnodwyd unrhyw bryderon am y plentyn – dim ond un o bob 11 o'r asesiadau hynny oedd yn nodi pryder am gam-drin neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant

O'r 30,970 o asesiadau a oedd yn cofnodi pryderon am gam-drin plant yn rhywiol, roedd dau o bob pump yn ymwneud â phryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol gan blentyn arall. Cafodd pryderon am gamfanteisio'n rhywiol ar blant (sy'n cael ei drin ar wahân i gam-drin plant yn rhywiol yn yr asesiadau hyn) eu cofnodi mewn 13,860 o asesiadau, sy'n parhau â gostyngiad o fwy na 6,000 dros chwe blynedd.

Oherwydd problemau gyda dibynadwydd data, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data ar gyfer 2023/24 am bryderon camfanteisio rhywiol a nodwyd mewn asesiadau o blant a gyfeiriwyd at wasanaethau plant awdurdodau lleol Cymru.

Yn Lloegr, bu amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol yn eu cyfrifon asesu anghenion ynghylch adnabod pryderon am gam-drin rhywiol plant. Gan nad oes tystiolaeth i awgrymu bod nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ranbarthau, mae hyn yn awgrymu bod yr ymateb i blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw. Er nad oedd pum awdurdod lleol wedi cofnodi unrhyw bryderon am gam-drin plant yn rhywiol dros y flwyddyn gyfan, cofnododd chwech arall y pryderon hyn am fwy na chwech o blant am bob 1,000 o blant sy'n byw yn yr ardal. Roedd cyfraddau canfod/cofnodi yn awdurdodau lleol Llundain yn tueddu i fod yn isel, ond roedd gan bob rhanbarth arall amrywiad eang mewn cyfraddau rhwng awdurdodau lleol.

Er nad oes gwybodaeth gyffredinol ar gael i'r cyhoedd am y camau a gymerwyd yn dilyn asesiadau o anghenion, cyhoeddir data ar y rhesymau dros leoli plant ar gynlluniau amddiffyn plant (yn Lloegr) neu'r gofrestr diogelu plant (yn Cymru).

Yn Lloegr, rhoddwyd 2,160 o blant ar gynlluniau amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol yn 2023/24 – gostyngiad o 6% ers y flwyddyn flaenorol, i'r nifer isaf yn y 30 mlynedd ers dechrau cyhoeddi'r data hwn. Roedd cyfanswm y cynlluniau amddiffyn plant newydd wedi disgyn 3%, sy'n fwy cymedrol, gyda cham-drin plant yn rhywiol yn rheswm dros 3.5% yn unig o'r cynlluniau hynny – y gyfran isaf erioed i gael ei chofnodi.

Roedd proffil demograffig plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd pryderon am gam-drin rhywiol yn parhau i fod yn debyg i'r blynedd blaenorol. Roedd y plant hyn yn tueddu i fod yn hŷn na'r rhai a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn am resymau eraill, ac roedd tri o bob pump yn ferched. O'u cymharu â'r boblogaeth o blant sy'n mynychu ysgolion a meithrinfeydd y wladwriaeth yn Lloegr, roeddent yn llai tebygol o fod o dras Du neu Asiaidd.

Yn Cymru, dim ond 199 o blant – 15% llai nag yn y llynedd – oedd wedi'u rhoi ar y gofrestr diogelu plant yn llwyr neu'n rhannol oherwydd pryderon am gam-drin rhywiol, sy'n cynrychioli 5% o'r holl gofrestriadau yn 2023/24. Fel yn Lloegr, yr oedd y plant hyn yn tueddu i fod yn hŷn na'r rhai a gynhelid ar y gofrestr am resymau eraill.

Roedd amrywiaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran nifer y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn neu'r cofrestr oherwydd pryderon ynghylch cam-drin rhywiol. Mwy na dwy ran o dair o awdurdodau lleol yn Lloegr, a mwy na hanner ohonynt yng Nghymru, a roddwyd dim neu ychydig iawn o blant ar gynlluniau amddiffyn neu'r cofrestr am y rheswm hwnnw.

Yn Lloegr, gostyngodd nifer y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd pryderon cam-drin rhywiol i'r lefel isaf erioed o 2,160.

Troseddau rhywiol plant a gofnodwyd gan yr heddlu

Cofnododd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr 101,199 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn ystod 2023/24 – 4% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd gostyngiad yn nifer y troseddau a gofnodwyd o ran trais rhywiol (–7%), gweithgarwch rhywiol (–12%) a chamfanteisio'n rhywiol (–14%) yn ogystal â gostyngiad bach mewn troseddau yn ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol (–3%), ond roedd nifer y troseddau meithrin perthynas amhriodol a gofnodwyd wedi codi 10% i 7,365, y lefel uchaf erioed i gael ei chofnodi.

Yn yr un modd ag awdurdodau lleol, roedd heddluoedd yn amrywio o ran cyfraddau cofnodi troseddau cam-drin plant yn rhywiol yn dibynnu ar faint y boblogaeth plant leol. Roedd y 'cyfraddau troseddau a gofnodwyd' hyn ar eu hisaf yn yr Heddlu Metropolitaidd, Swydd Hertford a Surrey, tra bo gan Durham, Cleveland a Cumbria y cyfraddau uchaf.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 104,828 o ymchwiliadau gan yr heddlu i droseddau cam-drin plant yn rhywiol. Cafodd unigolyn dan amheuaeth ei gyhuddo neu ei wysio mewn 13,098 (12%) o'r rhain: y nifer uchaf o gyhuddiadau am droseddau cam-drin plant yn rhywiol i gael ei gofnodi erioed, a'r gyfradd uchaf ers chwe blynedd.

Roedd 3,867 o ymchwiliadau'r heddlu (4% o'r cyfanswm) wedi arwain at gyhuddiad, datrysiad cymunedol neu 'weithgaredd dargyfeirio neu ymyrraeth'. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, caewyd bron i ddwy ran o dair o ymchwiliadau oherwydd anawsterau o ryw fath o ran tystiolaeth.

Hefyd, gan barhau â phatrwm hirdymor, roedd cyhuddiadau'n fwy tebygol o gael eu dwyn am droseddau camfanteisio'n rhywiol a pharatoi i bwrpas rhyw, ac yn lleiaf tebygol o gael eu dwyn am droseddau yn ymwneud ag ymosodiadau a thrais rhywiol, er y gwelwyd cynnydd cymedrol o ran cyfraddau cyhuddo ar gyfer y ddau olaf. Mae cyfraddau cyhuddo mewn perthynas â throseddau rhywiol yn erbyn oedolion hefyd wedi bod yn codi, yn dilyn cyflwyno'r model gweithredu cenedlaethol newydd ar gyfer ymchwilio i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol (oedolion); o bosibl mae'r model hwn a'i ffyrdd newydd o weithio hefyd wedi dylanwadu ar yr ymateb i drais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn erbyn plant.

Cymerodd ymchwiliadau i droseddau rhywiol (yn erbyn plant neu oedolion) fwy o amser nag unrhyw drosedd eraill i gael eu cwblhau. Yr amser cyfartalog (canolrifol) rhwng cofnodi trosedd rhywiol a'r ymchwiliad yn dod i ben oedd 73 diwrnod – a phan mai cyhuddiad neu wŷs oedd y canlyniad, roedd canolrif yr amser bron bedair gwaith yn hirach, sef 277 diwrnod. Ar gyfer troseddau trais rhywiol, hyd canolrifol ymchwiliad a arweiniodd at gyhuddiad neu wŷs oedd 423 diwrnod – ymhell dros flwyddyn. O fewn yr amserleni ymchwilio hyn, cymerodd Gwasanaeth Eryl y Goron amser cyfartalog (cymedrig) o 123 diwrnod i ddod i benderfyniad cyfreithiol ynghylch a ddylid cyhuddo unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau cam-drin plant yn rhywiol – roedd hyn naw diwrnod yn hirach nag yn 2022/23.

Nifer y cyhuddiadau a'r gwysion a ddygwyd gan yr heddlu am droseddau cam-drin plant yn rhywiol – 13,098 – oedd yr uchaf erioed.

Achosion Llys

Yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2023, cafodd achosion llys eu dwyn yn erbyn 9,215 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant yn rhywiol – 15% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol, a'r ail nifer uchaf i gael ei gofnodi. Roedd nifer yr erlyniadau wedi cynyddu ar draws pob categori o droseddau ar wahân i droseddau camfanteisio'n rhywiol, lle'r oedd erlyniadau wedi disgyn 20%.

Cofnodwyd ethnigrwydd diffynyddion mewn 69% o'r achosion. Lle cafodd ei gofnodi, roedd naw o bob deg o gefndir Gwyn, ac roedd pobl Wyn Prydeinig yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr. Dynion oedd y diffynyddion yn bennaf (99%) ac yn hŷn na 18 (97%), fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Roedd 7,371 o euogfarnau yn ystod y flwyddyn, 13% yn fwy nag yn 2022. Fe wnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron olrhain mwy na 5,000 o erlyniadau y tynnwyd sylw atynt fel troseddau cam-drin plant yn rhywiol, a chanfu fod 81% wedi dod i ben gyda cholffarn.

Yn gyffredinol, rhoddwyd dedfryd o garchar yn syth i bron i hanner (44%) o'r diffynyddion a gafwyd yn euog, sydd 8% yn uwch nag yn 2022, a chafodd traean ddedfryd ohiriedig. Roedd dedfrydau o garchar ar unwaith yn llai cyffredin ar gyfer troseddau yn ymwneud â delweddau a pharatoi i bwrpas rhyw, ac ar gyfer troseddau dan 18 oed.

Mewn erlyniadau am droseddau yn ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol, yr amser cyfartalog (cymedrig) i symud o gyhuddiad i gwblhau yn Llys y Goron oedd 185 diwrnod. Roedd erlyniadau am droseddau eraill yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn cymryd dwywaith cymaint o amser ar gyfartaledd – ychydig dros flwyddyn (374 diwrnod), a oedd dros fis (37 diwrnod) yn hirach nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae cyfuno data'r heddlu a'r erlyniad ar amserlenni yn dangos amser aros cyffredinol o bron i ddwy flynedd rhwng cofnodi achos o gam-drin plant yn rhywiol gyda'r heddlu a dod â'r achos i ben yn y llys – ac amser aros llawer hirach mewn perthynas â throseddau trais rhywiol.

Llwybrau cyfiawnder troseddol yn dilyn euogfarn

Adroddiad eleni yw'r cyntaf i amlinellu tueddiadau mewn data o'r system cyfiawnder troseddol ynghylch pobl sydd wedi'u cael yn euog o droseddau cam-drin plant yn rhywiol. Nid yw rhai setiau data yn gwahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol a cham-drin oedolion yn rhywiol, ond mae data ynghylch euogfarnau yn dangos yn gyson bod tua dwy ran o dair o euogfarnau am droseddau rhywiol yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

Mae pobl sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd rhywiol yn erbyn plentyn (yn ogystal â rhai troseddau rhywiol yn erbyn oedolyn) yn destun gofynion hysbysu troseddau rhyw yn awtomatig ac yn cael eu rheoli dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Cynyddodd poblogaeth unigolion ag euogfarnau rhywiol MAPPA 52% rhwng 2013/14 a 2023/24; erbyn hynny, roedd gan MAPPA oruchwyliaeth dros 70,052 o bobl ledled Cymru a Lloegr a oedd yn destun gofynion hysbysu troseddau rhyw. Yn dibynnu ar y ddedfryd a gafwyd, roedd y bobl hyn yn cael eu goruchwyllo gan y carchar, y gwasanaeth prawf a/neu wasanaeth yr heddlu; yr heddlu a oedd yn gyfrifol am oruchwyllo tua thri chwarter ohonynt.

Cynyddodd y boblogaeth yn y carchar o bobl sydd wedi'u cael yn euog o droseddau cam-drin plant yn rhywiol 28% rhwng mis Mehefin 2015 a mis Mehefin 2023. Ym mis Mehefin 2023, roedd 13% o'r boblogaeth yn y carchar â dedfrydau o garchar yn y ddalfa am droseddau rhywiol yn erbyn plant (9,017), o'i gymharu â 7% (4,942) a oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol yn erbyn oedolion. Roeddent yn fwyaf cyffredin yn cwblhau dedfrydau am drais rhywiol (3,685) neu ymosodiad rhywiol (2,048) ar blentyn, tra bod 522 yn y carchar am droseddau yn ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol. Yn 2023/24, dechreuodd 1,115 o bobl sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol raglen driniaeth achrededig yn y carchar, ac roedd 1,094 wedi cwblhau un. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n cwblhau dedfrydau o garchar am droseddau rhywiol yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod, wrth i system y llys barhau i adfer ar ôl y tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19 ac wrth i ddedfrydau hirach gael eu rhoi o ganlyniad i'r newidiadau i ganllawiau deddfwriaethol a dedfrydu.

Ym mis Mawrth 2024, roedd y gwasanaeth prawf yn goruchwyllo cyfanswm o 4,332 o bobl a oedd wedi'u cael yn euog o drosedd rhywiol yng Nghymru a Lloegr – 55% yn uwch na phedair blynedd yn gynharach.

Mae dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 'aildroseddu wedi'i brofi' yn dangos bod tua 13% o bobl a gafodd eu rhyddhau o'r carchar neu a gafodd ddedfrydau digarchar am droseddau rhywiol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022 wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd arall o fewn 18 mis. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (22%), troseddau ynadol nad ydynt yn ymwneud â moduro (mân droseddau) (17%), a throseddau rhywiol pellach (12%). O'i gymharu â'r patrymau aildroseddu cyffredinol ar gyfer pawb sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar neu sy'n cael dedfrydau digarchar yn yr un cyfnod, roedd pobl a oedd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol yn fwy tebygol o gael eu dyfarnu'n euog o gyflawni troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a throseddau rhywiol yn ystod y 18 mis dilynol.

Plant sy'n mynychu canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol

Yn 2022/23 roedd y lefelau cyffredinol o Roedd canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs) yn Lloegr wedi cael cyswllt cychwynnol â 9,533 o blant yn ystod y flwyddyn, ac roedd 1,021 o blant yn cael eu cefnogi gan SARCs yng Nghymru. Roedd ychydig dros hanner y plant a gafodd gymorth gan SARCs yn Lloegr yn 13–17 oed, ac roedd pump o bob chwech yn fenywod. Roedd y mwyafrif llethol yn Wyn Prydeinig; roedd plant o dras Asiaidd yn cyfrif am y gyfran leiaf o blant a welwyd gan SARCs o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth.

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at batrymau newid cymysg yn ystod 2023/24 o ran canfod ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n peri pryder bod gostyngiad sylweddol – i lefel hanesyddol isel – o ran y data amddiffyn plant sydd ar gael gan wasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr. Yn fwy calonogol, gwelsom newidiadau bach ond cadarnhaol yng nghanlyniadau ymchwiliadau'r heddlu a llysoedd: cyhuddwyd mwy o bobl dan amheuaeth a chafodd mwy o bobl eu herlynnu mewn perthynas â throseddau cam-drin plant yn rhywiol, sydd wedi gwrthdroi rhai tueddiadau hirdymor yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, roedd yr amserlenni ar gyfer sicrhau cyfiawnder wedi parhau i gynyddu, yn enwedig yn y system llysoedd.

Mae data ynghylch trefniadau ar ôl canfod yn euog yn datgelu system sy'n rheoli nifer cynyddol o bobl sydd wedi'u cael yn euog o droseddau cam-drin plant yn rhywiol.

Yn ogystal â'r canfyddiadau o'r adolygiad cenedlaethol diweddar o gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol, a dynnodd sylw at faterion sylweddol a hirdymor yn ymatebion gwasanaethau statudol i'r gamdriniaeth honno, mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r angen am newidiadau ar draws y system o ran y ffordd mae'r asiantaethau hyn yn canfod ac yn ymateb i blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae ein dadansoddiad yn tynnu sylw at yr angen parhaus i wella manylion, cysondeb ac



Roedd y gwasanaeth prawf yn goruchwyllo 4,332 o bobl a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol – 55% yn fwy na phedair blynedd ynghynt.



Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn
[www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/
scale-nature-of-abuse/trends-in-official-data/](http://www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/scale-nature-of-abuse/trends-in-official-data/)

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre.org.uk | [@csacentre](https://www.instagram.com/csacentre)
www.csacentre.org.uk

25718shc25